

CYNGOR SIR YNYS MÔN

PWYLLGOR:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	24 MAI 2012
TEITL YR ADRODDIAD:	GWELLA'R PWYLLGOR ARCHWILIO
ADRODDIAD GAN:	PENNAETH GWASANAETH - ARCHWILIO
GWEITHREDU:	CYTUNO AR GYNLLUNIAU GWELLA AR GYFER 2012-13

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1** Ers 2009 mae'r Pwyllgor Archwilio, yn unol ag arfer dda, wedi bod yn adolygu ei effeithiolrwydd bob blwyddyn yn erbyn Canllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol.
- 1.2** Mae'r Canllawiau Ymarferol uchod yn rhoi arweiniad o ran arferion da ar gyfer y gwaith hwn, ac maent yn cynnwys holiadur hunanasesu. Mabwysiadwyd yr hunanasesiad cyntaf o'i fath gan y pwyllgor hwn ym mis Ionawr 2010. Ers hynny, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau hyfforddi ar gyfer aelodau'r Pwyllgor a chymerwyd camau eraill y cytunwyd arnynt i ddangos gwelliant parhaus yn effeithiolrwydd y Pwyllgor.

2. CANLYNIAD HUNANASESIAD EFFEITHIOLRWYDD 2012

- 2.1** Cynhaliwyd gweithdy ar 24 Ebrill 2012 gyda'r Rheolwr Archwilio, yr Uchel Archwilydd Mewnol, Archwilydd a'r Rheolydd Twyll Budd-dal ynghyd â saith aelod o'r Pwyllgor.
- 2.2** Mae'r siartiau 'pry' cop' yn crynhoi canlyniad y gweithdai mewn modd gweladwy. Mae canlyniadau'r asesiadau wedi symud tuag at allan ers asesiadau 2011 i gyfeiriad gwella. Ym marn y rheini a gymerodd ran mae cynnydd wedi digwydd yn y cyfeiriad iawn.
(Gweler Atodiad A)
- 2.3** Mae'r tabl yn Atodiad B yn rhoi canlyniad gweithdai Ebrill 2012 yn erbyn y cwestiynau hunanasesu, eto o gymharu â llynedd. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried canlyniad y gweithdy, gwneud newidiadau os ystyrir bod angen, ac yna ei gymeradwyo'n ffurfiol.
- 2.4** Mae'r tabl yn Atodiad C yn dangos y Cynllun Gwella ar gyfer 2012-13 yn codi o waith y Pwyllgor yn y Gweithdy yn Ebrill 2012.

3. TREFNIADAU ATAL TWYLL

- 3.1 Mae Canllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol yn cynnwys cyfeiriad at rôl y Pwyllgor Archwilio o ran sicrhau bod camau i atal twyll a llygredd yn cael eu gweithredu. Yn y gorffennol gwnaed hynny trwy gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor bob blwyddyn ar y Polisi ar gyfer Atal Twyll a Llygredd. Mae hunanasesiad a wnaed gan y Pwyllgor o'r maes hwn yn flaenorol wedi arwain at benderfyniad i ychwanegu at rôl y Pwyllgor yn y maes hwn ac roedd y gweithdy yn Ebrill 2012 yn cynnwys adolygiad o'r trefniadau atal twyll yn y Cyngor.
- 3.2 Cafodd yr Aelodau a oedd yn bresennol wybodaeth gefndirol ynghylch twyll a llygredd yn gyffredinol, ynghyd â chrynodeb o swyddogaethau y Timau Archwilio Mewnol a Budd-dal Twyll yn y broses o atal twyll y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor.
- 3.3 Adroddodd y Rheolydd Atal Twyll Budd-dal ar drefniadau i atal twyll yn y maes Budd-dal a pherfformiad ei Dîm yn 2011-12.
- 3.4 Anfonwyd dogfen at yr Aelodau cyn y Gweithdy, sef rhestr wirio hunanasesu o ddogfen Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch Rheoli'r Risg o Dwyll. Cytunwyd y byddai'r Rheolydd Archwilio a'r Rheolydd Twyll Budd-dal yn cwblhau'r rhestr wirio hon ar ran yr Aelodau ac y byddai Cynllun Camau Gwella yn cael ei gynhyrchu i'w fabwysiadu gan y Pwyllgor. Bydd y Cynllun Camau Gwella hwn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor yn 2012-13.
- 3.5 Cynhelir adolygiad blynyddol o drefniadau Atal Twyll y Cyngor ochr yn ochr â'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio. (Gweler Atodiad D os gwelwch yn dda)

4. CAMAU PELLACH

- 4.1 Mae gwella'r Pwyllgor yn broses barhaus, gydag adolygiad o brosesau a chanlyniadau'r hunanasesiad yn arwain at adolygu, diweddarau a gwella ar sail barhaus. Mae asesiadau 2012, er eu bod yn dangos gwelliant o gymharu â 2011, hefyd yn dangos nifer o gyfleon ar gyfer datblygu ymhellach ac yn y modd y mae'r Pwyllgor yn gweithio.
- 4.2 Mae rhan helaeth o'r canllawiau yn pwysleisio'r wybodaeth arbenigol y mae gofyn i aelodau'r Pwyllgor Archwilio ei chael ac mae'r aelodau wedi ymateb yn gadarnhaol i'r hyfforddiant a roddwyd yn ystod y flwyddyn. Mae trosiant o ran aelodaeth a'r newidiadau yng ngofynion y Pwyllgor yn golygu bod angen adolygu anghenion hyfforddi bob blwyddyn.
- 4.3 Roedd meysydd ar gyfer eu gwella a nodwyd yng ngweithdy Ebrill 2012 yn cynnwys, ymysg pethau eraill, hyfforddiant cynefino a dadansoddi anghenion hyfforddi unigol yr Aelodau. Os caiff ei fabwysiadu fel rhan o Gynllun Camau Gwella,

bwriedir datblygu pecyn a gweithdrefnau cynefino a chyflwyno dadansoddiad anghenion hyfforddi / holiadur archwilio sgiliau i'w gwblhau bob blwyddyn gan yr Aelodau.

- 4.4 Byddai canlyniadau'r dadansoddiad anghenion hyfforddi / holiadur archwilio sgiliau yn cael eu defnyddio i yrru'r rhaglen hyfforddi yn ei blaen ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- 4.5 Bydd set sgiliau'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cael ei gwella yn 2012-13 trwy benodi aelod lleyg. Cynhyrchwyd manyleb person heriol ar gyfer ymgeiswyr am y swydd hon a rhagwelir y bydd y sawl a benodir yn dod a'r sgiliau ychwanegol hyn a phersbectif newydd i'r Pwyllgor.

5. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION



Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

- 5.1 mabwysiadu canlyniad yr hunanasesiadau o effeithiolrwydd y Pwyllgor a threfniadau Atal Twyll y Cyngor gan gynnwys y Cynlluniau Camau Gwella yn Atodiadau C a D yr adroddiad hwn;
- 5.3 cynnwys yn ei raglen waith ar gyfer 2012-13 hunanasesiad diwygiedig ar effeithiolrwydd y Pwyllgor a threfniadau Atal Twyll y Cyngor.

John Fidoe
Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio

24 Mai 2012

'GRAFFIAU PRY COPYN' O GANLYNIAD HUNANASESIADAU YN CHWEFROR 2011 AC EBRILL 2012



NODER - Pe bai holl feysydd yr hunanasesiad wedi'u cyflawni, byddai'r llinell fewnol yn cyfarfod â'r llinell allanol. Y pellaf yw'r llinellau oddi wrth ei gilydd, y lleiaf yw cydymffurfiad y Pwyllgor gydag arfer orau'r Hunan Aseiad.

Mae'r graffiau'n dangos cyfeiriad y daith tuag at y Pwyllgor yn gwella ei sefyllfa yn erbyn arfer orau.

Y meysydd a nodwyd uchod ar gyfer gwaith cychwynnol pellach i'w wneud yw meysydd Hunanasesu 4, 7 ac 8 sy'n ymwneud â:

Maes 4 – Rheolaeth Fewnol

Maes 7 – Archwilio Allanol

Maes 8 - Gweinyddiaeth

ATODIAD B

RHESTR WIRIO HUNANASESU'R PWYLLGOR ARCHWILIO
ADOLYGWYD - 24 Ebrill 2012

SEFYDLIAD, GWEITHREDIAD A DYLETYSWYDDAU			
1 Rôl a Chylch Gorchwyl			
Cyf	Mater	Ymateb PA 11-02-11	Hunanasesiad Ebrill 2012
1.1	Oes gan y Pwyllgor Archwilio gylch gorchwyl ysgrifenedig?	Oes – yn y Cyfansoddiad	Oes – yn y Cyfansoddiad
1.2	Ydi'r cylch gorchwyl yn delio gyda swyddogaethau sylfaenol y Pwyllgor Archwilio fel a nodir yng nghyfarwyddyd CIPFA?	Ydyw - a bydd yn cael ei ddiweddarau yn unol â Mesur Llywodraeth Leol.	Ydyw – ond angen ei ddiweddarau.
1.3	Ydi'r cylch gorchwyl wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor ac yn cael ei adolygu yn ysbeidiol?	Cymeradwywyd gan y Cyngor yn y Cyfansoddiad. Adolygwyd diwethaf yn 2007.	Na - angen ei adolygu a'i ddiweddarau yn 2012-13.
1.4	A oes digon o aelodau yn y Pwyllgor Archwilio ac awdurdod ac adnoddau i berfformio ei rôl yn effeithiol ac yn annibynnol?	Oes - Yn dibynnu - ar yr aelodau – cefndiroedd – i gynnwys aelod annibynnol yn fuan	Oes – ond mae adroddiadau hwyr wedi bod yn wendid difrifol yn 2011-12 – Angen rhoi sylw i hyn.
1.5	All y Pwyllgor Archwilio fynd i Bwyllgorau eraill ac i'r Cyngor llawn fel bo'r angen?	Gall - Mewn theori, ond prin y bydd yn digwydd.	Gall - Mewn theori, ond prin y bydd yn digwydd.
1.6	A yw Datganiad yr Awdurdod ar reolau mewnol yn cynnwys disgrifiad o sefydliad a gweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio?	Ydyw – Wedi ei gynnwys nawr yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.	Ydyw - cynwysedig yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
1.7	Fydd y Pwyllgor Archwilio weithiau'n asesu ei effeithlonrwydd ei hun?	Bydd – Blynyddol – ers Rhagfyr 2009.	Bydd – Blynyddol – ers Rhagfyr 2009 – diweddaraf Ebrill 2012.
1.8	Fydd y Pwyllgor Archwilio yn gwneud adroddiad blynyddol ffurfiol ar ei waith a'i berfformiad yn ystod y flwyddyn i'r Cyngor llawn?	Bydd - dechreuodd wneud hynny yn 2011.	Bydd - dechreuodd wneud hynny yn 2011.

2 Aelodaeth, Cynefino a Hyfforddiant			
Cyf	Mater	Ymateb PA 11-02-11	Hunanasesiad Ebrill 2012
2.1	A gafwyd cytundeb ffurfiol ar aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a gosod cworwm?	Do - yn y cyfansoddiad.	Do – yn y cyfansoddiad.
2.2	A yw'r Cadeirydd yn annibynnol o'r Pwyllgor Gwaith?	Ydyw - Nid yw'r Cadeirydd yn aelod o'r grwpiau a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith.	Ydyw - Nid yw'r Cadeirydd yn aelod o'r grwpiau a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith.
2.3	A oes gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio wybodaeth flaenorol, neu a yw wedi derbyn hyfforddiant priodol ar reoli cyllid a risg, safonau a chysyniadau cyfrifo a'r drefn reolaethol?	Oes – hyfforddiant PA a briffio gan yr Interim Gyfarwyddwr Corfforaethol yn parhau.	Oes – Y cyn aelod portffolio ar gyfer Cyllid – cyn gyfarwyddwr cwmni – ynghyd â hyfforddiant mewnol yn ystod y flwyddyn.
2.4	A yw aelodau newydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn hyfforddiant cynefino priodol?	Na – wedi cael hyfforddiant ac yn y blaen - ond dim hyfforddiant cynefino penodol.	Na - angen cynhyrchu pecyn cynefino - wedi ei gefnogi gyda chyfarfod cynefino cychwynnol gyda'r Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Archwilio - angen sefydlu hyn ar gyfer unrhyw aelodau newydd ym mis Mai. Gellid mabwysiadu deunydd cynefino o Gyngor arall?
2.5	A yw sgiliau a phrofiad holl aelodau wedi'u	Ydynt - aseswyd yn y	Ydynt ond – bydd holiadur

	hasesu a hyfforddiant wedi'i roi ar gyfer y bylchau a nodwyd?	flwyddyn ar gyfer y PA cyfan - yn parhau - rhoddwyd hyfforddiant yn unol â'r angen - e.e. yn y flwyddyn a aeth heibio rhoddwyd hyfforddiant ar faterion Rheoli Risg a Rheoli'r Trysorlys ac ar y Datganiad Cyfrifon.	ffurfiol ar gyfer anghenion hyfforddi yn cael ei gyflwyno ar gyfer pob aelod.
2.6	A yw pob aelod wedi datgan ei ddi-ddordebau busnes?	Ydyw - Angen Cyfansoddiadol i'r holl aelodau.	Ydyw - Angen Cyfansoddiadol i'r holl aelodau.
2.7	A yw'r aelodau'n ddigon annibynnol o bwllgorau allweddol eraill yn y Cyngor?	Ydynt - o fewn cyfyngiadau'r Cyfansoddiad.	Ydynt - o fewn cyfyngiadau'r Cyfansoddiad.

3 Cyfarfodydd			
Cyf	Mater	Ymateb PA 11-02-11	Hunanasesiad Ebrill 2012
3.1	Ydi'r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod yn rheolaidd?	Ydyw	Ydyw
3.2	Ydi'r cylch gorchwyl yn nodi amledd y cyfarfodydd?	Ydyw - er yn ymarferol mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn fwy aml.	Ydyw - er yn ymarferol cyfarfu'r pwyllgor yn fwy aml yn 2001-12
3.3	A yw calendr y Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod anghenion busnes yr awdurdod, anghenion llywodraethu a'r calendr ariannol?	Ydyw - mae'r PA wedi cynhyrchu amserlen o eitemau rhaglen.	Ydyw - mae'r PA wedi cynhyrchu amserlen o eitemau rhaglen - ond angen ei diweddarau yn 2012/13.
3.4	A yw'r aelodau'n mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ac os nad ydynt, a gymerir y camau priodol?	Ydynt	Ydynt - ni nodwyd unrhyw broblemau gydag aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn 2011-12.
3.5	A yw'r cyfarfodydd yn rhydd ac yn agored heb fod dylanwadau gwleidyddol yn cael eu dangos?	Na - beirniadaeth benodol ar hyn yn yr Arolwg Llywodraethu Corfforaethol.	Ydynt - ni nodwyd unrhyw broblemau gydag aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn 2011-12.
3.6	A yw Swyddog Adran 151 yr awdurdod neu ddirprwy yn mynychu'r holl gyfarfodydd?	Ydyw	Ydyw
3.7	A yw'r swyddogion priodol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio?	Ydynt	Ydynt

4 Rheolaeth Fewnol			
Cyf	Mater	Ymateb PA 11-02-11	Hunanasesiad Ebrill 2012
4.1	A fydd y Pwyllgor Archwilio yn ystyried canfyddiadau'r arolwg blynyddol o effeithlonrwydd y system o Reoliadau Mewnol fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio yn cynnwys adolygiad o effeithlonrwydd y system Archwilio Mewnol?	Bydd - fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol	Bydd - fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
4.2	A oes gan y Pwyllgor Archwilio gyfrifoldeb am adolygu a chymeradwyo'r SIC ac a yw yn ei ystyried ar wahân i'r cyfrifon?	Oes / Ydyw	Oes / Ydyw
4.3	Ydi'r Pwyllgor Archwilio'n ystyried pa mor ystyrion yw'r SIC?	Nid oedd yn gwneud hynny - ond bellach mae'n rhan o'r adolygiad o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.	Ydyw - fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
4.4	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn bodloni ei hun bod y System o Reolaeth Fewnol wedi gweithredu'n effeithiol trwy gydol y cyfnod adrodd yn ôl?	Aseswyd cynt nad oedd yn gwneud hyn - Adroddiadau Cynnydd AM yn rhoi hyn -	Ydyw - Mae Adroddiadau Cynnydd AM yn rhoi hyn - argymhelliad diweddar i roi sgôr rhwng 1-10 i

		argymhelliad diweddar i roi sgôr rhwng 1-10 i atgyfnerthu hyn.	atgyfnerthu hyn.
4.5	A yw'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried sut y mae'n integreiddio gyda phwyllgorau eraill all fod â chyfrifoldeb am reoli risg?	Ydyw – Wedi trefnu sesiwn ar y cyd yn y dyfodol ar y Fframwaith Rheoli Risg gyda'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.	Ydyw – l'w gynnwys mewn gweithdy/hyfforddiant ar y cyd ar y Fframwaith Rheoli Risg gyda'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.
4.6	A yw'r Pwyllgor Archwilio (gyda chyfrifoldeb dirprwyedig) neu'r Cyngor llawn wedi mabwysiadu "Rheoli'r Risg o Dwyll – Gweithredu i Wrthsefyll Twyll a Llygredd?"	Na – Mae'r hunanasesiad cyntaf yn erbyn arferion gorau yn rhan o sesiwn 24-04-12.	Na – ond yn dilyn gweithdy mis Ebrill – bydd adroddiad yn cael ei baratoi i'w fabwysiadu yn y Pwyllgor yn 2012-13.
4.7	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n sicrhau bod y "Gweithrediadau i Wrthsefyll Twyll a Llygredd" yn cael eu gweithredu?		Na – ond bydd rhestr wirio yn cael ei chwblhau a'r cynllun gweithredu yn cael ei gynhyrchu yn 2012-13
4.8	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n ymwybodol o rôl Rheoli Risg gyda pharatoi'r Cynllun Archwilio Mewnol?	Aseswyd fel 'Na' yn flaenorol – ond bellach mae wedi ei gynnwys yn y rhagarweiniad yng Nghynllun Strategol a Gweithredol yr Adain Archwilio Mewnol bob blwyddyn. Roedd cynllun eleni yn cynnwys croesgyfeiriad at y Gofrestr Risg Gorfforaethol.	Ydyw – rhan o'r rhagarweiniad i'r Cynllun
4.9	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu cofrestr risg strategol yr awdurdod o leiaf yn flynyddol?	Aseswyd fel 'Na' yn flonorol – ond bydd Cofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei chyflwyno i bob cyfarfod PA yn y dyfodol.	Na – ond gwneir hyn yn 2012-13 – mae Cofrestr Risg Gorfforaethol ddrafft bellach wedi ei chynhyrchu.
4.10	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn monitro sut y mae'r Awdurdod yn asesu ei risg?	Aseswyd nad oedd yn gwneud hyn gynt – ond bydd yn gwneud yn 2012-13.	Na – ond bydd yn gwneud hynny yn 2012-13.
4.11	A yw Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys trosolwg o'r broses Rheoli Risg?	Ydyw	Ydyw

5 Adroddiadau Ariannol a Materion Rheolaethol			
Cyf	Mater	Ymateb PA 11-02-11	Hunanasesiad Ebrill 2012
5.1	A yw rôl y Pwyllgor Archwilio yn ystyried ac / neu yn cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol wedi'i ddiffinio'n glir?	Ydyw – yn y cylch gorchwyl.	Ydyw – yn y cylch gorchwyl.
5.2	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried yn benodol : <ul style="list-style-type: none"> Addasrwydd polisiau a thriniaethau cyfrifo; Penderfyniadau Mawr yn cael eu gwneud; Gwaith Dileu Dyledion Mawr; Newidiadau mewn triniaethau cyfrifo; Pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifo; Yr agweddau naratif o adrodd yn ôl?	Ydyw – hyfforddiant yn parhau ar gyfer y PA – mae adroddiadau Archwilwyr Allanol a nodiadau briffio gan yr Adran Gyllid yn cynorthwyo.	Ydyw - hyfforddiant yn parhau ar gyfer y PA – mae adroddiadau Archwilwyr Allanol a nodiadau briffio gan yr Adran Gyllid yn cynorthwyo – fodd bynnag mae amseru yn ystyriaeth – e.e. ar ôl y digwyddiad?
5.3	A drefnwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio i dderbyn adroddiad yr Archwilydd Allanol i'r rhai sy'n llywodraethu yn cynnwys trafodaeth am newidiadau arfaethedig i'r cyfrifon a materion eraill yn codi o'r archwiliad?	Do	Do
5.4	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu llythyr cynrychiolaeth y rheolwyr?	Ydyw	Ydyw
5.5	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu polisiau	Ydyw	Ydyw

	cyfrifo'r Awdurdod yn flynyddol?		
5.6	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn cael dealltwriaeth o weithdrefnau rheoli ar gyfer paratoi cyfrifon blynyddol yr awdurdod?	Ydyw - drwy gyfrwng adroddiad Cyllid.	Ydyw - drwy gyfrwng adroddiad Cyllid.
5.7	A oes peirianwaith ar gael i'r Pwyllgor Archwilio i'w gadw'n ymwybodol o faterion cyfreithiol a rheolaethol, er enghraifft trwy dderbyn cylch lythrau a thrwy hyfforddiant?	Oes – asesiad parhaus o anghenion hyfforddi.	Oes – adroddiadau Swyddogion i'r Pwyllgor – ond gallai wella trwy gyhoeddi cylchlythrau rheolaidd a hyfforddiant ar bynciau'r dydd.

6 Archwilio Mewnol			
Cyf	Mater	Ymateb PA 11-02-11	Hunanasesiad Ebrill 2012
6.1	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo, yn flynyddol ac mewn manylder, gynlluniau strategol a blynyddol archwilio mewnol yn cynnwys ystyried a yw sgôp gwaith archwilio mewnol yn delio â risgiau arwyddocaol yr Awdurdod?	Ydyw – Ond roedd amheuaeth ynghylch y tri gair diwethaf – bellach mae'r Cynllun Gweithredu AM yn cael ei groes gyfeirio lle mae hynny'n briodol i'r Risgiau Corfforaethol yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.	Ydyw - Bellach mae'r Cynllun Gweithredol AM yn cael ei groesgyfeirio lle mae hynny'n briodol i'r Risgiau Corfforaethol yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.
6.2	A oes gan yr Adran Archwilio Mewnol linell adrodd yn ôl priodol i'r Pwyllgor Archwilio.	Oes	Oes
6.3	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau ysbeidiol gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol?	Ydyw – Adroddiadau Gwaith AM i bob cyfarfod ac adroddiad blynyddol yn y cyfarfod cyntaf ar ôl diwedd mis Mawrth.	Ydyw - Adroddiadau Gwaith AM i bob cyfarfod ac adroddiad blynyddol yn y cyfarfod cyntaf ar ôl diwedd mis Mawrth.
6.4	A yw archwiliadau dilynol gan Archwilio Mewnol yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio ac a yw'r Pwyllgor yn ystyried pa mor ddigonol yw gweithredu ar argymhellion?	Ydynt – ym mhob cyfarfod fel rhan o adroddiad cynnydd ar waith AM.	Ydynt - ym mhob cyfarfod fel rhan o adroddiad cynnydd ar waith AM.
6.5	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n cynnal trafodaethau preifat ysbeidiol gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol?	D/B – nid oes angen penderfyniad ymwybodol – ond sefydlwyd bod cyfle i wneud hynny pan fo'r naill barti neu'r llall ei angen.	Ydyw – ond – nid oes angen penderfyniad ymwybodol – sefydlwyd bod cyfle yno pan fo'r naill barti neu'r llall ei angen.
6.6	A oes cydweithrediad priodol rhwng yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol?	Oes - ond angen gwell cynllunio.	Oes - ond angen gwell cynllunio.
6.7	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu pa mor ddigonol yw staff ac adnoddau eraill Archwilio Mewnol?	Ydyw – rhan o Gynllun Gweithredu AM bob blwyddyn.	Ydyw - rhan o Gynllun Gweithredu AM bob blwyddyn.
6.8	A yw'r Pwyllgor Archwilio wedi gwerthuso a yw ei wasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio gyda Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU?	Ydyw – adolygiad allanol gan Archwilio Allanol.	Ydyw - adolygiad allanol gan Archwilio Allanol.
6.9	A yw mesurau perfformio Archwilio Mewnol yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio?	Ydynt – fel rhan o Adroddiad cynnydd ar waith AM wedi ei gysylltu i'r Cynllun Busnes.	Ydynt - fel rhan o Adroddiad cynnydd ar waith AM wedi ei gysylltu i'r Cynllun Busnes.
6.10	A yw'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried y wybodaeth y mae'n dymuno ei derbyn gan Archwilio Mewnol?	Ydyw - mewn gweithdai blaenorol.	Ydyw – yn parhau – gwnaed cais am enghraifft o adroddiad llawn AM fel y gall Aelodau weld y fethodoleg yn gweithio'n ymarferol a nodi unrhyw anghenion adrodd ychwanegol.

7 Archwilio Allanol			
Cyf	Mater	Ymateb PA 11-02-11	Hunanasesiad Ebrill 2012

7.1	A yw'r Archwilwyr Allanol yn cyflwyno ac yn trafod eu cynlluniau archwilio a'u strategaeth gyda'r Pwyllgor Archwilio (yn cydnabod dyletswyddau statudol Archwilio Allanol)?	Ydyw	Ydyw
7.2	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n cynnal trafodaethau preifat yn ysbeidiol gyda'r Archwilydd Allanol?	D/B – Dim angen penderfyniad ymwybodol – ond sefydlwyd bod cyfle i wneud hynny pan fo'r naill barti neu'r llall ei angen.	Ydyw – Dim angen penderfyniad ymwybodol – ond sefydlwyd bod cyfle i wneud hynny pan fo'r naill barti neu'r llall ei angen.
7.3	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu adroddiad blynyddol yr Archwilydd Allanol i'r rhai sy'n llywodraethu?	Ydyw	Ydyw
7.4	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n sicrhau bod swyddogion yn monitro'r gweithredu gwneir i weithredu argymhellion archwilio allanol?	Na – angen mwy o fanylion gan PWC mewn adroddiadau gwaith rheolaidd a champau sydd mewn llaw.	Na - ond mae'r Adain Archwilio Mewnol wedi cynhyrchu adroddiad ar Ddilyn i Fyny Argymhellion nad ydynt yn ymwneud ag AM gan gynnwys yr angen i gael cofrestr ganolog o'r holl argymhellion ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgorau perthnasol.
7.5	A yw adroddiadau ar waith Archwilio Allanol ac asiantaethau archwilio eraill yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor, yn cynnwys Llythyr Archwilio ac Archwiliad Blynyddol y Comisiwn Archwilio?	Ydyw Archwilio Allanol – Ydyw Gall eraill fynd i rywle arall.	Ydyw Archwilio Allanol – Ydyw Gall eraill fynd i rywle arall.
7.6	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n asesu perfformiad yr Archwilwyr Allanol?	Na ond blaenoriaeth isel.	Na - angen edrych ar fabwysiadu DP perthnasol i'w adrodd arnynt fel rhan o adroddiadau gwaith Archwilwyr Allanol i'r Pwyllgor.
7.7	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n ystyried ac yn cymeradwyo ffi yr Archwilwyr Allanol?	Ydyw ond gosodwyd gan SAC.	Na - ffi ar gyfer y Datganiad Cyfrifon wedi'i osod - dylid ystyried a chyfiawnhau gwaith ychwanegol mewn perthynas ag ymyrraeth.

GWEINYDDU			
8 Rheoli Rhaglenni			
Cyf	Mater	Ymateb PA 11-02-11	Hunanasesiad Ebrill 2012
8.1	A oes gan y Pwyllgor Archwilio ysgrifennydd penodol o'r Gwasanaethau Pwyllgor / Aelodau?	Oes –	Oes –
8.2	A yw papurau agenda'n cael eu dosbarthu ymlaen llaw i'r cyfarfodydd fel y gall aelodau'r Pwyllgor Archwilio baratoi'n ddigonol.	Ydynt - ond lle i wella eto - rhai materion yn 2011-12.	Ydynt - roedd materion yn ymwneud â phapurau yn hwyr yn 2011-12 - angen mynd i'r afael.
8.3	A yw rhaglenni amlinellol yn cael eu cynllunio un flwyddyn ymlaen llaw i ddelio â materion ar sail dreigl ?	Ydynt – yn ôl y calendr.	Ydynt yn ôl y calendr.
8.4	A ofynnir am fewnbynnau i unrhyw fater arall yn ffurfiol ac ymlaen llaw gan aelodau pwyllgor, swyddogion perthnasol, Archwilio Mewnol ac Allanol?	N/B – nid yw'n arferol caniatáu UFA mewn cyfarfodydd Pwyllgor ffurfiol.	N/B - nid yw'n arferol caniatáu UFA mewn cyfarfodydd Pwyllgor ffurfiol.

9 Papurau			
Cyf	Mater	Ymateb PA 11-02-11	Hunanasesiad Ebrill 2012
9.1	A yw'r adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio yn cyfathrebu gwybodaeth berthnasol yn ddigon aml, ar amser, ac mewn fformat sy'n effeithiol?	Ydyw – ond lle i wella o hyd.	Ydyw - ond roedd rhai aelodau yn cwestiynu faint o amser y maent yn ei gael i ystyried adroddiadau hir ac/neu gymhleth – gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon.

9.2	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n cyhoeddi cyfarwyddyd ac / neu profforma ynglŷn â fformat a chynnwys y papurau sydd i'w cyflwyno?	Ydyw – fel yr uchod	Ydyw – Fformat adrodd y Pwyllgor Corfforaethol
-----	--	---------------------	--

10 Gweithredu yn codi			
Cyf	Mater	Ymateb PA 11-02-11	Hunanasesiad Ebrill 2012
10.1	A yw'r cofnodion yn cael eu paratoi a'u dosbarthu ar unwaith i'r bobl briodol?	Ydynt	Ydynt – ond mae amseru yn broblem – gallai'r cofnodion i'r Cadeirydd fod yn fwy prydlon. Y polisi Corfforaethol yw nad yw Cadeiryddion yn cael y cofnodion drafft ond eu bod yn cael fersiynau terfynol ar yr un adeg â phawb arall – angen gweld a oes modd adolygu'r polisi Corfforaethol os oes angen. Cymeradwywyd Cadeiryddion yn derbyn cofnodion drafft.
10.2	A fydd adroddiad yn cael ei baratoi ar faterion sy'n codi a'i gofnodi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio?	Bydd	Bydd – dan y cofnodion ar y rhaglen nesaf – ond nid yw gwybodaeth ynghylch dilyn i fyny gamau a nodwyd yn y cofnodion diwethaf fel mater o drefn.
10.3	A geir pwyntiau gweithredu yn nodi pwy sydd i berfformio beth ac erbyn pa bryd?	Oes – wedi'i wella	Na – nid yw'r pwyntiau gweithredu yn cynnwys manylion ynghylch pwy sy'n gyfrifol amdanynt nac erbyn pa bryd fel y gellir dilyn i fyny yn y cyfarfod nesaf.

ATODIAD C


RHESTR WIRIO HUNANASESU PWYLLGOR ARCHWILIO
CYNLLUN GWEITHREDU NEWYDD – 24 EBRILL 2012

Cyf	Mater	Aseswyd gan Aelod Sefyllfa Bresennol 24-04-12	Gweithredu sydd ei Angen	Gweithredu gan / erbyn
1.2 & 1.3	Ydi'r cylch gorchwyl yn delio gyda swyddogaethau sylfaenol y Pwyllgor Archwilio fel a nodir yng nghyfarwyddyd CIPFA?	Ydyw - ond	Angen cael ei ddiweddarau yn unol â chyfarwyddyd CIPFA a Mesur Llywodraeth Leol Ystyried mabwysiadu Datganiad Pwrpas i'r Pwyllgor yn unol â'r canllawiau	Diweddariad gan Adran 151 Mabwysiadu - Pwyllgor
2.4	A yw aelodau newydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn anwythiad priodol?	Dim sefydlu ffurfiol	Angen cynhyrchu pecyn cynefino – wedi ei gefnogi gan gyfarfod cynefino cychwynnol gyda'r Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Archwilio Mae angen sefydlu trefniadau ar gyfer unrhyw aelodau newydd ym Mai 2012. Gellid mabwysiadu deunydd cynefino a ddefnyddir gan Gyngorau eraill os ydynt yn berthnasol?	Adran 151 / Rheolydd Archwilio
2.5	A yw sgiliau a phrofiad holl aelodau wedi'u hasesu a hyfforddiant wedi'i roi ar gyfer y bylchau a nodwyd?	Ydyw – Ond	Mae anghenion hyfforddi yn cael eu hasesu yn y flwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarwydd ar sail barhaus a darperir hyfforddiant fel y cyfyd yr angen - e.e. Hyfforddiant Rheoli Risg a Rheoli Trysorlys; hyfforddiant ar y Datganiad Cyfrifon yn y flwyddyn a aeth heibio. Fodd bynnag, mae Aelodau yn credu y byddai gwerthusiad unigol rheolaidd o anghenion hyfforddi yn gwella'r broses. Bydd holiadur Anghenion Hyfforddiant ffurfiol yn cael ei gyflwyno ar gyfer pob Aelod i'w gwblhau bob blwyddyn	Adran 151 / Rheolydd Archwilio
3.3	A yw calendr y Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod anghenion busnes yr awdurdod, anghenion llywodraethu a'r calendr ariannol?	Oes	Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynhyrchu amserlen o eitemau rhaglen ond bellach mae angen ei hadolygu a'i diweddarau i gwrdd ag anghenion busnes cyfredol.	Adran 151 / Rheolydd Archwilio
4.6	A yw'r Pwyllgor Archwilio (gyda chyfrifoldeb dirprwyedig) neu'r Cyngor llawn wedi mabwysiadu "Rheoli'r Risg o Dwyll – Gweithredu i Wrthsefyll Twyll a Llygredd?"	Ydyw	Yn y gweithdy yn Ebrill 2012 edrychwyd ar atal twyll a'r restr wirio gysylltiedig ar gyfer cymharu trefniadau atal twyll cyfredol. Bydd y Pwyllgor yn ystyried mabwysiadu'r ddogfen yn ffurfiol ynghyd â'r Cynllun Gwella ar gyfer trefniadau atal twyll yn sgil y gweithdy yn Ebrill 2012.	Adran 151 / Rheolydd Archwilio Pwyllgor

4.7	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n sicrhau bod y "Gweithrediadau i Wrthsefyll Twyll a Llygredd" yn cael eu gweithredu?	NA	Bydd y Pwyllgor yn monitro'r cynnydd yn erbyn y cynllun camau gwella ar gyfer y trefniadau atal twyll bob blwyddyn ochr yn ochr â'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd.	Pwyllgor
4.9	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu cofrestr risg strategol yr awdurdod o leiaf yn flynyddol?	NA – Ond	Mae Cofrestr Risg Gorfforaethol gychwynol wedi ei llunio a bwriedir ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgorau Sgriwtini o fis Medi 2012. Darperir hyfforddiant ar y cyd ar y Fframwaith Rheoli Risg i'r Pwyllgorau cyn Medi 2012.	Adran 151 / Pennaeth Gwasanaeth Cyllid
4.10	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn monitro sut y mae'r Awdurdod yn asesu ei risg?	NA	Dylai'r Pwyllgor adolygu'r Fframwaith Rheoli Risg bob blwyddyn gan gynnwys y polisi a derbyn adroddiad blynyddol ar reoli risg. Bydd monitro'r broses rheoli risg yn y fath fodd wedi ei gynnwys mewn calendr diwygiedig o waith y Pwyllgor Archwilio.	Adran 151 / Pennaeth Gwasanaeth Cyllid
5.2	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried yn benodol : <ul style="list-style-type: none"> • Addasrwydd polisiau a thriniaethau cyfrifo; • Penderfyniadau Mawr yn cael eu gwneud; • Gwaith Dileu Dyledion Mawr; • Newidiadau mewn triniaethau cyfrifo; • Pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifo; Yr agweddau naratif o adrodd yn ôl?	Ydyw – Ond	Mae hyfforddiant i'r Pwyllgor Archwilio yn parhau. Mae adroddiadau'r Archwilwyr Allanol a'r nodiadau briffio gan yr Adran Gyllid yn cynorthwyo ar gyfer rhoi sylw i'r meysydd hyn – Fodd bynnag, mae aelodau yn credu y gellid gwella'r amseru yn hyn o beth. Dylai sawl sy'n ysgrifennu adroddiadau gynhyrchu eitemau o'r fath i'w hystyried cyn ei gweithredu yn hytrach nag ar ôl y digwyddiad.	Adran 151 / Pennaeth Gwasanaeth Cyllid / Rheolydd Archwilio / Archwiliwr Allanol
5.7	A oes peirianwaith ar gael i'r Pwyllgor Archwilio i'w gadw'n ymwybodol o faterion cyfreithiol a rheolaethol, er enghraifft trwy dderbyn cylch lythyrau a thrwy hyfforddiant?	Ydyw - hyfforddiant asesiad anghenion parhaus.	Gwneir hyn yn rhannol trwy adroddiadau swyddogion i'r Pwyllgor a'r rhaglen hyfforddi barhaus. Fodd bynnag, gellid codi ymwybyddiaeth trwy gael mynediad i gylchlythyrau perthnasol.	Adran 151 / Rheolydd Archwilio
6.10	A yw'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried y wybodaeth y mae'n dymuno ei derbyn gan Archwilio Mewnol?	Do	Mae ffurf yr adroddiadau wedi newid dros amser mewn ymateb i geisiadau'r Pwyllgor. Gofynnodd yr aelodau am enghraifft o adroddiad Archwilio Mewnol llawn er gwybodaeth ac roeddent yn dymuno gweld sut oedd y fethodoleg archwilio yn cael ei defnyddio a nodi unrhyw anghenion adrodd ychwanegol.	Rheolydd Archwilio
7.4	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n sicrhau bod swyddogion yn monitro'r gweithredu ar argymhellion archwilio allanol?	Na	Ond mai'r Adain Archwilio Mewnol wedi cynhyrchu adroddiad ar argymhellion nad ydynt yn rhai AM gan gynnwys yr angen am gofrestr ganolog	Swyddog Adran 151 / Rheolydd Archwilio / Pennaeth

			o'r holl argymhellion ac adrodd ar gynnydd o ran gweithredu'r rhain i'r Pwyllgorau perthnasol gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio.	Gwasanaeth Polisi.
7.6	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n asesu perfformiad yr Archwilwyr Allanol?	Na	Angen ystyried mabwysiadu DP perthnasol i adrodd arnynt fel rhan o adroddiadau cynnydd yr Archwilwyr Allanol i'r Pwyllgor.	Adran 151 / Archwiliwr Allanol
7.7	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n ystyried ac yn cymeradwyo ffi yr Archwilwyr Allanol?	Ydy – Ond	Pennir y brif ffi gan SAC – fodd bynnag byddai'r aelodau yn dymuno cael dadansoddiad ac adolygiad o unrhyw waith ychwanegol sydd ddim yn ymwneud â'r gwaith ar y Datganiad Cyfrifon.	Adran 151 / Archwiliwr Allanol
8.2	A yw papurau agenda'n cael eu dosbarthu ymlaen llaw i'r cyfarfodydd fel y gall aelodau'r Pwyllgor Archwilio baratoi'n ddigonol.	Na	Roedd materion yn ymwneud â phapurau yn hwyr yn 2011-12 - angen mynd i'r afael â hyn.	Adran 151 / Pennaeth Gwasanaeth Cyllid / Rheolydd Archwilio / Archwiliwr Allanol
9.1	A yw'r adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio yn cyfathrebu gwybodaeth berthnasol yn ddigon aml, ar amser, ac mewn fformat sy'n effeithiol?	Ydynt – Ond	Roedd yr Aelodau yn cwestiynu faint o amser y maent yn ei gael i ystyried adroddiadau hir ac/neu gymhleth – gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon. Byddai'r Aelodau yn dymuno cael mwy o amser i ystyried adroddiadau o'r fath.	Adran 151 / Swyddogion Pwyllgor
10.1	A yw'r cofnodion yn cael eu paratoi a'u dosbarthu ar unwaith i'r bobl briodol?	Ydynt – Ond	Ystyrir bod yr amseru yn fater y dylid rhoi sylw iddo. Dylid cyflwyno cofnodion i'r Cadeirydd yn fwy prydlon. Y polisi corfforaethol yw nad yw Cadeiryddion yn derbyn cofnodion drafft ond eu bod yn cael fersiynau terfynol ar yr un adeg ag Aelodau eraill y Pwyllgor. Angen ystyried a oes modd adolygu'r Polisi Corfforaethol os oes angen fel bod Cadeiryddion yn derbyn cofnodion drafft.	Adran 151 / Swyddogion Pwyllgor
10.3	A geir pwyntiau gweithredu yn nodi pwy sydd i berfformio beth ac erbyn pa bryd?	Oes – Ond	Nid yw'r pwyntiau gweithredu bob amser yn cynnwys pwy sy'n gyfrifol am roi sylw iddynt nac erbyn pa bryd fel y gellir dilyn i fyny yn y cyfarfod nesaf. Gofyn i'r Clercod Pwyllgor gynnwys pwy sy'n gyfrifol am wneud be ac erbyn pa bryd.	Adran 151 / Swyddogion Pwyllgor

'GRAFF PRY' COP' O GANLYNIADAU HUNANASESIADAU ATAL TWYLL YN EBRILL 2012



ON - Pe bai holl feysydd yr hunanasesiad wedi eu bodloni, byddai'r llinell fewnol yn cwrdd â'r llinell allanol. Mwyaf yn y byd yw'r pellter rhwng y llinellau, lleiaf yn y byd y mae'r Pwyllgor yn cydymffurfio gydag arferion gorau Hunanasesu.

Mae'r graff yn dangos y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â threfniadau Atal Twyll y Cyngor o gymharu ag Arferion Gorau ac mae felly'n waelodlin ar gyfer mesur gwelliannau yn y dyfodol.

Y prif feysydd a nodwyd ar gyfer gwaith pellach yw:

Diwylliant

Atal; a

Diffinio llwyddiant.

Mae'r Cynllun Camau Gwella yn Atodiad F yn dangos sut y cyflwynir gwelliant.

RHESTR WIRIO HUNANASESU TREFNIADAU ATAL TWYLL Y PWYLLGOR ARCHWILIO – CYCHWYNNOL**RHESTR WIRIO YN SEILIEDIG AR – CIPFA – ASESU'R RISG O DWYLL****CWBLHAWYD YR HUNANASESIAD CYCHWYNNOL YNGHYLCH Y RISG O DWYLL AR RAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO GAN Y RHEOLYDD ARCHWILIO A'R RHEOLYDD ATAL TWYLL DROS DRO**

			Ydi'r Meysydd yn Effeithiol? Na-Rhannol-Ydynt		
Cyf	Maes Gweithredu	Risg	Hunanasesiad y Swyddog	Effeithiol	Gweithredu
Dull Strategol					
1.1	A oes gan y sefydliad bolisi / strategaeth atal twyll a llygredd y gellir ei gysylltu'n glir i amcanion strategol y sefydliad?	Cydranddeiliaid ddim yn ymwybodol o drefniadau atal twyll lleol a chyfrifoldeb y sefydliad i ostwng twyll i'r lefel isaf bosib.	Oes - Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r Polisi ar gyfer Atal Twyll a Llygredd - Ond nid yw wedi ei gysylltu â'r amcanion corfforaethol BCF – Gyda Pholisi Atal Twyll – a fydd yn cael ei ddisodli yn Ebrill 2013 dan y trefniadau newydd gyda'r AGP.	YDI	D/B
